**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Canolfan Barham, Capel Mount Pisgah, Parkmill, Abertawe**

**Nos Lun, 25 Medi 2017 am 7.00pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | |
|---|---|---|
| M C Child | P R Hood-Williams | |

| **Aelod(au)** | **Aelod(au)** | **Aelod(au)** |
|---|---|---|
| Roger Button | Stephen Heard | Barbara Parry |
| Rod Cooper | Sue Hill | David Tucker |
| Stephen Crocker | Hamish Osborn | Deborah Vine |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Chris Lindley | Gower AONB Team Leader |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Gower AONB Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: J P Curtice, L James a/ac A H Stevens
Aelodau: Gordon Howe a/ac Michael Lewis
Swyddog: P Meller

---

## 16 Croeso a Chyflwyniadau.

Croesawodd y cadeirydd bawb a oedd yn bresennol yng Nghapel Mount Pisgah a dechrau'r cyfarfod.

## 17 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

## 18 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blynyddol Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.

## 19 Materion sy'n codi o'r cofnodion.

Nid oedd unrhyw fater wedi codi.

**20 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy Adroddiad.**

Cyflwynodd Swyddog AoHNE Gŵyr adroddiad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Amlinellwyd mai nod y gronfa oedd cefnogi prosiectau blaengar, cynaliadwy ac amgylcheddol sy'n cynnwys cymunedau lleol mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE).

Nod y CDC yw datblygu a phrofi dulliau o gyflawni ffordd o fyw mwy cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig o harddwch ac amrywiaeth naturiol gwych, a hynny mewn partneriaeth. Mae'r cynllun yn ceisio cadw a gwella nodweddion, y diwylliant, y bywyd gwyllt, y tirweddau, y defnydd o'r tir a'r cymunedau lleol. Mae cynnal lles cymdeithasol a dichonoldeb economaidd cymunedau hefyd yn nodau pwysig o'r cynllun.

Roedd y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer grantiau bach sy'n llai na £3,000 neu grantiau mwy sy'n werth hyd at £25,000. Cafodd y ceisiadau dros £3,000 eu hasesu gan Banel Grantiau'r CDC, sef is-grŵp Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE.

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai £55,000 oedd cyllideb CDC ar gyfer 2017/18. Ariennir 8 prosiect drwy gyllideb CDC ar gyfer 2017/18 ar hyn o bryd, ac mae 3 chais arall ar waith.

Roedd ffigur y cronfeydd sydd wedi eu neilltuo yn cynnwys ffi reoli DASA sef £5,500 (10%).

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr arian sydd ar gael | £ 55,000.00 |
| Cronfeydd sydd wedi eu neilltuo | £ 30,310.00 |
| Cronfeydd sydd heb eu neilltuo | £ 24,690.00 |
| Ceisiadau a ragwelir | £ 16,400.00 |

Cyfarfu'r Panel yn chwarterol er mwyn ystyried ceisiadau. Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2017/18 oedd 9 Hydref 2017 (sesiwn hyfforddi); 11 Rhagfyr 2017 a 12 Mawrth 2018.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**21 Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) - Detholiad o Banel Grantiau'r CDC a Phanel Apeliadau'r CDC.**

**Penderfynwyd:** -

1) Ethol y canlynol fel aelodau'r Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy: -

   Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd)
   Y Cynghorydd M C Child
   Y Cynghorydd L James

Y Cynghorydd A H Stevens
D Cole
K Marsh
P Thornton
D Vine

2) Ethol y canlynol fel aelodau Panel Apeliadau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy: -

Stephen Heard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd J P Curtice
S Hill
S Crocker
A Baharie

**22 Tirweddau'r Dyfodol Cymru - Egwyddorion Llywodraethu a diweddariad gan Grwp Gweithredu Adroddiad.**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr Dirweddau'r Dyfodol Cymru - Egwyddorion Llywodraethu a diweddariad ar adroddiad y Grŵp Gweithredu.

Darparodd gefndir yr adroddiad 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru' yn dilyn Adolygiad Marsden. Ychwanegwyd, yn dilyn yr adolygiad, fod Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol wedi'i sefydlu i archwilio'r argymhellion. Ystyriodd y Grŵp hefyd yr argymhellion yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad agoriadol ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.

Tynnwyd sylw at Adolygiad o Dirweddau'r Dyfodol, adolygiad gan y Gweithgor sy'n nodi cynnig newydd i dirweddau dynodedig fynd y tu hwnt i'w dibenion presennol sy'n ymwneud â chadwraeth a gwerth amwynderau. Nododd y dylai Tirweddau Dynodedig arwain rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan ddarparu buddion cyhoeddus a phreifat ehangach. Pwysleisiodd y cyfle, drwy weithio mewn partneriaeth, i sylweddoli potensial economaidd cymunedau ac i hyrwyddo twf gwyrdd a chydnerthedd ecosystemau drwy'r tirweddau hyn.

Ychwanegwyd bod ffordd newydd o weithio drwy drefniadau llywodraethu sy'n cynnwys amrywiaeth eang o fodelau cyflwyno a phartneriaeth â gweledigaeth gyffredin wedi'i chynnig. Awgrymwyd hefyd y dylai'r cyrff a'r partneriaethau sydd â chyfrifoldeb dros y Tirweddau Dynodedig weithio ar draws ffiniau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaethau lleol i hyrwyddo eu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a'u defnydd cynaliadwy. Nododd yr adroddiad hwn y byddai angen partneriaethau newydd er mwyn denu adnoddau newydd ac i ddylanwadu ar fuddsoddiadau gan eraill. Pwysleisiodd y byddai'r ffordd newydd hon o weithio yn gofyn am newid ymddygiadol a sefydliadol.

Cafodd cynllun gweithredu 18 mis ar y camau cyntaf i wireddu'r cynnig ei gynnwys yn yr adroddiad. Cafodd ei rannu yn ôl yr elfennau canlynol:

- cydweithrediad a phartneriaeth;
- gweledigaeth a chyfeiriad;

- adfywio llywodraethu: gwella perfformiad ac atebolrwydd;
- blaengaredd mewn adnoddau; a
- datblygu lles a chydnerthedd.

Cynigodd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig fodel arfaethedig ar gyfer datblygu polisïau cyhoeddus y dyfodol a drafftio deddfwriaeth ddatganoledig. Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad dros yr haf - 'Symud Cymru Ymlaen' - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy'n ceisio barn ar ymagweddau rheoleiddio newydd wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Amlinellodd yr adroddiad hefyd gyfres gytunedig o egwyddorion llywodraethu da. Darparwyd crynodeb o'r egwyddorion llywodraethu yn Atodiad 1.

Gofynnwyd i'r Grŵp Llywio adolygu egwyddorion llywodraethu da a nodwyd yn yr adroddiad ac argymhellwyd ei fod yn eu mabwysiadu wrth lywodraethu'r AoHNE.

Trafododd y Grŵp y canlynol: -

- Er bod sawl syniad da, roedd angen mwy o fanylder/dyfnder yn yr adroddiad;
- Gofyniad i'r Grŵp Llywio feirniadu ei hun yn erbyn egwyddorion yr adroddiad;
- Disgwyliadau Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n disgwyl i'r Grŵp Llywio wneud cynnydd mewn rhyw ffordd;
- Cymariaethau ag AoHNE/Pharciau Cenedlaethol eraill megis Dyffryn Gwy a Bannau Brycheiniog;
- Y Grŵp Llywio i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Rheoli;
- Archwilio arfer da mewn mannau eraill cyn gwneud penderfyniad;
- Datblygu a gweithredu gweledigaeth strategol ar gyfer yr ardal.

Nododd y Cynghorydd P R Hood-Williams, mewn perthynas â chyfreithlondeb, cyfranogiad a llais, fod cyfansoddiad y Grŵp Llywio yn gywir yn y CCB lle'r oedd gan bawb y cyfle i siarad a chodi materion. Dylai'r Grŵp Llywio felly drafod datblygu a rhoi gweledigaeth strategol ar waith ar gyfer yr ardal.

Cynigiwyd bod Gweithgor yn cael ei ffurfio er mwyn edrych ar y mater ymhellach.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Sefydlu Gweithgor i edrych ar y mater ymhellach ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Gweithgor i gynnwys yr aelodau canlynol - Steve Heard, Hamish Osborn, Steve Crocker a Keith Marsh.

**23 Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol - Adborth o'r gynhadledd. (Llafar)**

Nododd y Cadeirydd fod Cynhadledd Genedlaethol AoHNE wedi'i chynnal yn Winchester. Nododd mai'r thema drwy gydol y gynhadledd oedd gwneud pethau'n

wahanol yng ngoleuni'r toriadau cyni a Brexit, gyda sefydliadau'n gorfod gweithio mewn partneriaeth.

Roedd y gynhadledd yn ddigwyddiad gwych lle rhannodd teulu a phartneriaid AoHNE eu dysg. Ychwanegodd fod yna waith gwych yn cael ei gyflawni.

Amlygodd y prif siaradwyr ddiwylliant, a sut y mae'n annog ffyniant, gan gynnwys creu cymunedau cryfach a gwella lles. Yn ychwanegol, roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) wedi ehangu proffil yr ymwelwyr ac wedi cynnal trafodaethau gyda phwyslais ar wneud tirwedd yn fwy canolog, gan ddarparu enghreifftiau o sut y mae hyn wedi'i gyflawni.

Roedd y gynhadledd yn rhwydwaith o bobl sy'n frwd dros AoHNE a nodwyd cyfleoedd i hyrwyddo rhagoriaeth sefydliadol, drwy rannu profiadau am sut i fynd i'r afael â nifer o faterion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M C Child at gais Dinas Diwylliant Dinas a Sir Abertawe a nododd, os yn llwyddiannus, dylai'r cyngor sicrhau bod yr AoHNE a'i phreswylwyr yn elwa. Ychwanegodd fod yr AoHNE mewn sefyllfa unigryw ac nid oes unrhyw AoHNE/Barc Genedlaethol wedi bod yn rhan o gais Dinas Diwylliant.

Trafododd y Grŵp Llywio'r canlynol: -

- Gwella cyfathrebiadau gan amlygu'r AoHNE;
- Gwneud pethau'n wahanol drwy wella cyfathrebiadau a hyrwyddo'r AoHNE, e.e. gwefannau, radio a chyfryngau cymdeithasol;
- Gwella arwyddion wrth fynedfa'r AoHNE ac ar yr M4 i hysbysu pobl leol ac ymwelwyr;
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael sy'n ymwneud â'r AoHNE, amlygu ei diben;
- Gwella cyfathrebiad Partneriaeth Tirwedd Gŵyr a hyrwyddo'i phroffil;
- Diffyg cefnogaeth ariannol i wneud gwelliannau;
- Newidiadau arfaethedig i gyllideb yr AoHNE.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**24 Aelodau'r Grwp Llywio.**

Cynigiwyd y bydd Keith Marsh, Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt yn cael ei gynnwys yn y Grŵp Llywio.

**Penderfynwyd** trafod y cynnig yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.25 pm

**Cadeirydd**